# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

**RHAN 5**

DARPARIAETH ATODOL

**PENNOD 5**

COSBAU YCHWANEGOL O DAN DDEDDF CASGLU A RHEOLI TRETHI (CYMRU) 2016

**74 Cosbau am fethiannau lluosog i ddychwelyd ffurflenni treth**

Ar ôl adran 118 o DCRhT (cosb am fethu â dychwelyd ffurflen dreth ar y dyddiad ffeilio neu cyn hynny) mewnosoder—

**"118A Cosbau am fethiannau lluosog i ddychwelyd ffurflenni treth mewn cysylltiad â threth gwarediadau tirlenwi**

(1) Pan ddaw person yn agored i gosb o dan adran 118 mewn cysylltiad â ffurflen dreth y mae'n ofynnol i'r person ei dychwelyd o dan adran 39 o DTGT, mae cyfnod cosbi—

(a) yn dechrau â'r diwrnod ar ôl dyddiad ffeilio'r ffurflen dreth, a

(b) yn dod i ben 12 mis yn ddiweddarach, oni chaiff ei ymestyn o dan is-adran (2)(b).

(2) Os yw'n ofynnol i'r person ddychwelyd ffurflen dreth arall o dan adran 39 o DTGT ("ffurflen dreth B") cyn diwedd y cyfnod cosbi ond bod y person yn methu â gwneud hynny ar ddyddiad ffeilio ffurflen dreth B neu cyn hynny—

(a) nid yw'r person yn agored i gosb o dan adran 118 mewn cysylltiad â'r methiant hwnnw ond mae'n agored i gosb o dan yr adran hon yn lle hynny, a

(b) caiff y cyfnod cosbi ei ymestyn fel ei fod yn dod i ben 12 mis ar ôl dyddiad ffeilio ffurflen dreth B.

(3) Pennir swm y gosb y mae person yn agored iddo o dan yr adran hon drwy gyfeirio at nifer y ffurflenni treth—

(a) yr oedd yn ofynnol i'r person eu dychwelyd o dan adran 39 o DTGT yn ystod y cyfnod cosbi, ond

(b) y mae'r person wedi methu â'u dychwelyd ar ddyddiadau ffeilio'r ffurflenni treth hynny neu cyn hynny.

(4) Os methiant cyntaf y person yn ystod y cyfnod cosbi yw'r methiant i ddychwelyd ffurflen dreth B ar y dyddiad ffeilio neu cyn hynny, mae P yn agored i gosb o £200 mewn cysylltiad â'r methiant hwnnw.

(5) Os ail fethiant y person yn ystod y cyfnod cosbi yw'r methiant i ddychwelyd ffurflen dreth B ar y dyddiad ffeilio neu cyn hynny, mae P yn agored i gosb o £300 mewn cysylltiad â'r methiant hwnnw.

(6) Os trydydd methiant neu ragor y person yn ystod y cyfnod cosbi yw'r methiant i ddychwelyd ffurflen dreth B ar y dyddiad ffeilio neu cyn hynny, mae P yn agored i gosb o £400 mewn cysylltiad â'r methiant hwnnw.

(7) Caniateir ymestyn cyfnod cosbi fwy nag unwaith o dan is-adran (2)(b)."

## 75 Cosb am fethu â thalu treth mewn pryd

Yn adran 122 o DCRhT (cosb am fethu â thalu treth mewn pryd) (a amnewidir gan baragraff 42 o Atodlen 23 i DTTT), yn lle is-adran (2) rhodder—

"(2) Y gosb—

(a) mewn cysylltiad â swm o dreth trafodiadau tir, yw 5% o swm y dreth nas talwyd;

(b) mewn cysylltiad â swm o dreth gwarediadau tirlenwi, yw 1% o swm y dreth nas talwyd."

## 76 Cosbau am fethiannau lluosog i dalu treth mewn pryd

Ar ôl adran 122 o DCRhT (cosb am fethu â thalu treth mewn pryd) (a amnewidir gan baragraff 42 o Atodlen 23 i DTTT) mewnosoder—

### "122ZA Cosb am fethiannau lluosog i dalu treth gwarediadau tirlenwi mewn pryd

(1) Pan ddaw person yn agored i gosb o dan adran 122 mewn cysylltiad â methiant i dalu swm o dreth gwarediadau tirlenwi ar y dyddiad cosbi neu cyn hynny, mae cyfnod cosbi—

(a) yn dechrau â'r diwrnod ar ôl y dyddiad cosbi, a

(b) yn dod i ben 12 mis yn ddiweddarach, oni chaiff ei ymestyn o dan is-adran (2)(b).

(2) Os yw'r person, cyn diwedd y cyfnod cosbi, yn methu â thalu swm arall o dreth gwarediadau tirlenwi ("swm B") ar y dyddiad cosbi ar gyfer y swm hwnnw neu cyn hynny—

(a) nid yw'r person yn agored i gosb o dan adran 122(1) mewn cysylltiad â'r methiant hwnnw ond mae'n agored i gosb o dan yr adran hon yn lle hynny, a

(b) caiff y cyfnod cosbi ei ymestyn fel ei fod yn dod i ben 12 mis ar ôl y dyddiad cosbi ar gyfer swm B.

(3) Pennir swm y gosb y mae person yn agored iddo o dan yr adran hon drwy gyfeirio at—

(a) swm B, a

(b) sawl tro yn ystod y cyfnod cosbi y mae person wedi methu â thalu swm o dreth gwarediadau tirlenwi ar y dyddiad cosbi ar gyfer y swm hwnnw neu cyn hynny.

(4) Os methiant cyntaf y person yn ystod y cyfnod cosbi yw'r methiant, mae'r person yn agored i gosb o 2% o swm B mewn cysylltiad â'r methiant hwnnw.

(5) Os ail fethiant y person yn ystod y cyfnod cosbi yw'r methiant, mae'r person yn agored i gosb o 3% o swm B mewn cysylltiad â'r methiant hwnnw.

(6) Os trydydd methiant neu ragor y person yn ystod y cyfnod cosbi yw'r methiant, mae'r person yn agored i gosb o 4% o swm B mewn cysylltiad â'r methiant hwnnw.

(7) Caniateir ymestyn cyfnod cosbi fwy nag unwaith o dan is-adran (2)(b)."